# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Canolfan Gofal Swn-y-Môr**

**Canolfan Gofal Swn-y-Môr**
**Scarlet Avenue**
**Port Talbot**
**SA12 7PH**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Canolfan Gofal Swn-y-Môr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Speed 9395 Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 91 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Mai 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r tîm rheoli yn Swn-y-Môr yn cynnwys yr Unigolyn Cyfrifol, y rheolwr ardal, rheolwr y cartref a'r dirprwy reolwr. Mae'r tîm rheoli yn cwblhau prosesau sicrhau ansawdd amrywiol. Ceir tîm craidd sefydledig o staff sy'n cynnwys nyrsys, gweithwyr gofal a staff ategol. Cynhelir prosesau recriwtio parhaus i sicrhau bod y lefelau staffio yn cyfateb i anghenion dibyniaeth a nodwyd y bobl sy'n byw yn Swn-y-Môr.

Mae'r staff yn ofalgar ac yn adnabod y bobl yn dda. Gwelwyd bod y staff yn garedig ac yn barchus a'u bod yn hyrwyddo annibyniaeth. Er y dywedwyd wrthym fod y staff gofal yn ceisio rhoi gofal mewn modd amserol, ni ellid gweld hyn yng nghofnodion y dogfennau gofal yn unol ag anghenion y bobl a aseswyd a'u cynlluniau personol. Hefyd, ni chaiff cyffuriau a reolir eu rhoi yn unol â pholisi meddyginiaeth y darparwyr. Cyhoeddwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â'r meysydd hyn.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant a'u hannibyniaeth. Mae Swn-y-Môr wedi ei leoli mewn adeilad pwrpasol ond mae ganddo hefyd ymdeimlad cyfforddus ac mae'r bobl a'u teuluoedd yn ymddangos yn gartrefol ac yn hapus.

Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn cwblhau proses sefydlu yn dibynnu ar eu profiad unigol a'u cymhwysedd. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae angen gwneud rhai gwelliannau o ran darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb a chynnal sesiynau goruchwylio unigol.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais a chânt eu hannog i leisio eu barn ar achlysuron anffurfiol fel boreau coffi neu wrth ‘gael sgwrs’. Dywedodd y staff wrthym “*Each and every one of them is individual.”* a *“What is important here is person centred care and we provide that.”* Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd â pherthnasau. Mae gwelliannau'n cael eu gwneud i'r broses adolygu er mwyn sicrhau y bydd y bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu gwahodd i gyfarfod chwarterol yn y dyfodol er mwyn cyfrannu at y broses o adolygu eu canlyniadau personol.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth yn y ffordd y maent am ei chael. Mae gan y darparwr ganllaw ysgrifenedig 31 o dudalennau a Datganiad o Ddiben 76 o dudalennau. Mae'r ddau yn ddogfennau llawn gwybodaeth ond bydd y bobl yn cael budd o fersiynau sy'n haws eu deall. Gwelsom fod hyn yn wir am rai o'r polisïau hefyd. Dywedwyd wrthym os bydd pobl am gael dogfennau fel y canllaw ysgrifenedig yn Gymraeg, y gellir eu darparu.

Gall y bobl ddewis ble y maent am fwyta eu prydau, naill ai yn eu hystafelloedd eu hunain neu yn yr ystafelloedd bwyta cymunedol. Mae'r staff yn garedig, yn gwrtais ac yn barchus. Rhoddir dewis i'r bobl ac mae'r staff yn ymwybodol o ofynion deietegol y bobl, a chaiff y rhai sy'n gallu bwyta eu prydau yn annibynnol eu hannog i wneud hynny. Gwelsom brydau amgen yn cael eu cynnig yn ogystal â'r hyn a oedd ar y fwydlen. O ran dewisiadau yn gyffredinol, dywedodd y staff wrthym “*We respect people’s wants, needs and desires. We have to balance our duty of care versus choice”.*

Er bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu a bod polisi cyfredol ar waith, nid yw'r staff bob amser yn darparu gofal amserol neu'n dangos tystiolaeth o hynny. Ni allwn fod yn siŵr bod y bobl yn cael eu hail-leoli'n gyson a bod gwiriadau iechyd y croen yn cael eu cynnal yn unol â'u hasesiadau a'u cynlluniau personol. Nid yw'r cofnodion o gymeriant maethol bob amser yn dangos bod gofynion deietegol y bobl yn cael eu bodloni. Ni chaiff cyffuriau a reolir eu rhoi yn unol â chanllawiau NICE. Nid yw rhai o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol diweddaraf fel cymorth cyntaf (wyneb yn wyneb), ac nid ydynt yn cael sesiynau goruchwylio unigol chwarterol yn gyson. Gall y meysydd hyn a nodwyd effeithio ar ba mor dda y mae'r bobl yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn rhag esgeulustod.

Caiff y bobl eu cefnogi i ymgysylltu â'u cymuned a chyfrannu ati. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom baratoadau ar gyfer dathlu 20 mlynedd ers agor Swn-y-Môr. Dywedodd y bobl wrthym am y digwyddiad a oedd wedi'i gynllunio a'r barbeciw ar gyfer teuluoedd presennol a blaenorol. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n helpu i'w cadw'n iach ac yn hapus. Defnyddir hysbysfwrdd gweithgareddau a chylchlythyr i roi gwybod i'r bobl am y digwyddiadau hyn. Darperir gweithgareddau mewn ardaloedd gwahanol o'r cartref. Gwelsom weithgaredd plannu planhigion mewn potiau, bingo a diddanwr yn y cartref.

Gwelwyd ymwelwyr yn treulio amser gyda'u perthnasau. Dywedodd y bobl wrthym; *“They are as good as gold”* a *“The staff are all great”.*

## Gofal a Chymorth

Nid yw'r gofal a'r cymorth, fel lleddfu briwiau pwyso, bob amser yn cael eu darparu mewn modd amserol neu yn unol â chynlluniau personol y bobl.  Gwelsom edrych ar ddogfennaeth gofal, yn cynnwys asesiadau, siartiau safle a siartiau iechyd y croen. Roedd y rhain yn dangos bylchau clir yn y cofnodion o newidiadau safle gofynnol. Dangosodd y gwiriadau o fatresi a gwblhawyd ar gyfer pedwar unigolyn fod tri ohonynt yn cael gofal ar fatresi lleddfu pwysedd a oedd wedi'u gosod yn anghywir. Yn ôl y cofnodion o gymeriant deietegol, ni chaiff anghenion maethol y bobl eu diwallu'n gyson yn unol â'u cynlluniau personol a'u hasesiadau. Gwelsom fylchau clir yn y cofnodion o brydau a hylifau. Dangosodd y staff eu bod yn adnabod y bobl yn dda, a gwelwyd bod y staff yn garedig ac yn barchus a'u bod yn hyrwyddo annibyniaeth. Fodd bynnag, dangosodd y dogfennau gofal a rhai arsylwadau nad yw'r bobl bob amser yn cael gofal yn unol â'u hasesiadau a'u cynlluniau personol.Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Caiff cynlluniau personol y bobl eu hadolygu gan y staff yn fisol neu'n amlach os oes unrhyw newidiadau. Er y gwelsom fod rhai perthnasau yn hapus i alw heibio i siarad â'r staff am unrhyw bryderon, nid ydynt yn cael eu gwahodd yn ffurfiol i gyfarfod adolygu chwarterol ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r rheolwr a'r tîm yn Swn-y-Môr yn gweithio tuag ato.

Caiff y rhan fwyaf o geisiadau am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Mae matrics ar waith fel ffordd o atgoffa'r gwasanaeth i adnewyddu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Gwnaethom nodi nad yw'r hysbysiad gofynnol yn cael ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ond aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod y broses arolygu.

Er y gwelsom fod systemau diogel ar waith i reoli meddyginiaethau, mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer rhoi meddyginiaethau a reolir. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio fel sy'n ofynnol yn yr ystafell feddyginiaeth. Caiff meddyginiaeth lle mae amser yn hollbwysig ei rhoi mewn modd amserol, a gwelsom y nyrs yn gwirio symptomau'r bobl a'u gofynion ar gyfer meddyginiaeth fel y bo angen (PRN) Fodd bynnag, gwelsom nad yw cyffuriau a reolir bob amser yn cael eu rhoi yn unol â pholisi'r gwasanaeth. Nid ydynt bob amser yn cael eu gwirio gan ail aelod o'r staff. Caiff y llofnod gan 'dyst' ei wneud gan ail aelod o staff ar adeg wahanol heb gwblhau'r gwiriadau priodol. Felly, ni allwn fod yn sicr bod y bobl yn cael cyffuriau a reolir fel sy'n ofynnol yn unol â chanllawiau NICE a pholisi meddyginiaeth y cartref. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Caiff gofal a chymorth eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n hyrwyddo annibyniaeth y bobl. Mae'r coridorau yn fawr ac yn hygyrch ac mae gan y bobl eu toiled ensuite eu hunain a chyfleusterau basn golchi yn eu hystafelloedd. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn fawr ac yn cynnwys cyfarpar addas i alluogi'r bobl i gael bath neu gawod, yn dibynnu ar eu dewis. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli yn unol â dymuniadau'r bobl, ac roedd y bobl a'u hymwelwyr yn ymddangos yn gyfforddus yn treulio amser yn ystafelloedd y bobl neu yn y lolfeydd cymunedol tawel. Gwelsom arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r adeilad i gefnogi'r bobl y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Cafwyd trafodaethau â'r rheolwr i ystyried gwella'r amgylchedd ymhellach i sicrhau ei fod yn fwy addas i bobl sy'n byw gyda dementia. Er enghraifft, canllawiau gwahanol ac eitemau/addurniadau i alluogi'r bobl i adnabod eu hardal fyw eu hunain. Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn yr awyr agored ac mae ardal awyr agored wedi cael ei harwynebu yn ddiweddar. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau pellach i wneud yr ardal hon yn fwy diogel fel bod pawb yn gallu ei defnyddio'n ddiogel.

Dywedodd y staff a'r perthnasau a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym *“It’s lovely, nice and airy here and the view is spectacular”* and *“It is family friendly, everyone feels welcome”.* Gallem weld fod yr ymwelwyr â'r cartref wedi meithrin cydberthynas dda â'r staff.

Mae'r gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau ac mae prosesau a gwiriadau ar waith. Gwelsom adroddiad ar ‘Ymweliad safle Iechyd a Diogelwch’ a gwblhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae asesiad risg tân ar waith a nododd ymweliad diweddar gan wasanaeth tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ‘ddiogelwch tân digonol’, ynghyd â rhai argymhellion. Mae gan y bobl Gynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad ac mae stribedi lliw ar ddrysau eu hystafelloedd gwely sy'n dangos lefel y cymorth sydd ei angen ar y bobl. Cynhelir gwiriadau ar y cyfarpar codi a chario yn y cartref, fel y teclynnau codi, y slingiau a'r lifftiau.

Mae cynllun gwella'r amgylchedd parhaus ar waith. Mae hyn yn cynnwys ailaddurno ystafelloedd fel sy'n ofynnol. Mae gwaith ar linteli ffenestri rhydlyd wedi'i gwblhau. Mae rhaglen addurno ar waith ac mae cynlluniau hefyd i osod ffenestri newydd lle mae'r gwydr wedi chwythu.

Mae'r cartref yn lân iawn ac yn daclus. Ar ôl gwirio'r ardaloedd golchi dillad, gwelsom eu bod wedi'u cloi fel sy'n ofynnol a bod y cyfarpar yn cael ei storio'n briodol. Gwelsom fod

bagiau gwastraff melyn ar y llawr gan na allai'r biniau ddal eu pwysau. Dywedodd y dirprwy reolwr wrthym y byddai'n chwilio am finiau eraill sy'n addas at y diben.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae llinellau atebolrwydd a threfniadau llywodraethu clir yn y cartref. Mae'n hawdd cael gafael ar y rheolwr, y dirprwy reolwr a'r rheolwr ardal, a cheir system 'ar alwad y tu allan i oriau'. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd fel rhan o'i broses sicrhau ansawdd. Gwelsom adroddiadau ar ymweliadau chwarterol a'r adroddiad diweddaraf ar ansawdd y gofal. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym ei fod yn siarad â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref ond nad yw bod amser yn cofnodi hyn. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn nodi'n glir yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn glir a bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn gweithio tuag at sicrhau bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi newid a sut mae'r canlyniadau wedi gwella ar gyfer y bobl.

Mae'r lefelau staffio yn unol â'r Datganiad o Ddiben, a cheir tîm sefydlog o staff craidd. Mae'r broses recriwtio yn barhaus er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio yn parhau fel sy'n ofynnol. Mae staff asiantaeth yn gweithio yn Swn-y-Môr yn achlysurol. Mae'r cartref a'r bobl sy'n byw yno fel arfer yn eu hadnabod. Mae'r prosesau recriwtio yn dda. Caiff gwiriadau fel gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu cwblhau cyn i'r staff ddechrau yn eu swydd. Caiff cofrestriadau â'r cyrff proffesiynol priodol fel Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd eu cwblhau a'u monitro.

Nid yw'r staff bob amser yn cael yr hyfforddiant a'r sesiynau goruchwylio unigol sydd eu hangen i sicrhau eu bod yn gymwys i ddarparu'r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen ar unigolion. Darperir cyfnod sefydlu o dri diwrnod (o leiaf), yn dibynnu ar wybodaeth a hyder y staff. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein, ynghyd â rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol  wyneb yn wyneb. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein diweddaraf. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant wyneb yn wyneb diweddaraf fel hyfforddiant cymorth cyntaf brys, hyfforddiant tân a hyfforddiant codi a chario. Gwelsom fod y staff yn cael hyfforddiant ar ofal diwedd oes a gofal dementia. O ran hyfforddiant arbenigol arall, mae'r Datganiad o Ddiben yn nodi *"The home has a specialism in supporting those with neurological disorders such as Multiple Sclerosis and Motor Neurone Disease".* Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant arbenigol hwn. Cawsom sicrwydd gan y rheolwr fod hyn yn cael ei drefnu. O ran sesiynau goruchwylio staff unigol, ni chaiff y rhain eu cynnal yn chwarterol fel sy'n ofynnol. Gwelsom gofnodion goruchwylio 22 aelod o'r staff ac roedd 13 ohonynt wedi cael sesiwn goruchwylio unigol unwaith mewn 5 mis. Ar y cyfan, nid oedd y cofnodion goruchwylio yn canolbwyntio neu'n myfyrio'n gyson ar ymarfer y staff a'u

cymhwysedd proffesiynol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Cynhelir cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom fod cyfarfodydd llai yn cael eu cynnal yn ystod shifftiau. Dywedodd y staff wrthym *“Its a happy place to work”* a dywedodd teulu wrthym *“They are marvellous – the nurse X is great. X really communicates with me I have to commend them – all the girls here are wonderful, they keep in touch”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Ni chaiff cyffuriau a reolir eu rhoi'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a pholisi meddyginiaeth y gwasanaeth bob amser. Dylid rhoi meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd yn unol â chanllawiau NICE a'r polisi meddyginiaeth. | Newydd |
| 21 | Mae'r ddogfennaeth gofal a rhai arsylwadau yn dangos nad yw'r staff gofal yn darparu gofal yn unol ag asesiadau a chynlluniau personol y bobl yn gyson. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth yn unol â'u cynlluniau personol. | Heb ei gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol fel cymorth cyntaf (ymarferol), hyfforddiant arbenigol fel y nodir yn natganiad o ddiben y darparwyr na sesiwn goruchwylio unigol chwarterol. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y staff yn cael eu hyfforddi a'u goruchwylio'n ddigonol. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/07/2024